

Cynnig
GOFAL PLANT CYMRU
The CHILD CARE Offer for
WALES

Addysg gynnar a gofal • Early education and care



Eich Cynnig Gofal Plant ym Mro Morgannwg



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro
Vale Family Information Service

VALE of GLAMORGAN



Beth yw'r Cynnig Gofal Plant?

Tri deg awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir a ar gyfer rhieni plant 3 i 4 oed sy'n gweithio ac yn gymwys, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Bydd y 30 awr yn cynnwys cyfuniad o ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen (FPN) sy'n agored i bob plentyn 3 i 4 oed, a ddarperir fel arfer mewn ysgolion, a gofal plant a ariennir ar gyfer teuluoedd cymwys, a ddarperir fel arfer mewn lleoliad gofal plant.

Faint o oriau o ofal plant?

● Yn ystod Amser y Tymor

Mae'r Cynnig Gofal Plant yn ariannu uchafswm o 30 awr o addysg gynnar a gofal plant yr wythnos mewn cyfuniad.

Ym Mro Morgannwg, bydd plant yn derbyn 12.5 o oriau o ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen, a hyd at 17.5 awr o ofal plant a ariennir.

Gall rhieni cymwys ddefnyddio elfen gofal plant y Cynnig Gofal Plant o hyd (hyd at 17.5 awr) hyd yn oed os byddant yn dewis peidio ag ymgymryd â'u 12.5 awr o hawl i Feithrin y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, ni ellir cyfnewid darpariaeth gofal plant a ariennir am oriau Meithrin y Cyfnod Sylfaen. Ni fydd gofal plant a ariennir trwy'r Cynnig Gofal Plant yn cynyddu os na fydd rhiant yn defnyddio ei hawl i Feithrin y Cyfnod Sylfaen.

● Yn ystod Gwyliau'r Ysgol

Yn ystod gwyliau'r ysgol, bydd cyllid y Cynnig Gofal Plant yn codi i hyd at 30 awr yr wythnos, am 9 wythnos y flwyddyn. Rhennir hyn yn 3 wythnos y tymor a chaiff rhieni ddewis pryd i gymryd yr wythnosau hyn. Bydd angen i rieni gael mynediad i'w darpariaeth gwyliau mewn blociau o wythnos a gellir cronni wythnosau nas defnyddir o'r naill dymor i'r llall. I gael rhestr o ddyddiadau tymor yr ysgol, ewch i Wefan Bro Morgannwg:
www.valeofglamorgan.gov.uk/schools

Pwy fydd yn darparu'r Cynnig Gofal Plant?

Gall pob darparwr gofal plant sy'n gofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) ddarparu'r Cynnig. Ni all y Cynnig gael ei gymryd gydag

unrhyw ddarparwr neu berson **nad yw** wedi'i gofrestru gyda CIW (neu Ofsted yn Lloegr).

Caniateir i rieni cymwys ymgymryd â'u gofal plant, lle y bo ar gael, gydag **unrhyw** ddarparwr gofal plant **cofrestredig** sy'n addas i'w hamgylchiadau personol a theuluol, boed hynny ym Mro Morgannwg neu y tu allan iddi (gan gynnwys Lloegr). Cyhyd â bod y darparwr yn **gofrestredig** ac wedi llofnodi i gymryd rhan yn y Cynnig gyda Chyngor Bro Morgannwg, cewch chi ei ddefnyddio ar gyfer eich oriau o ofal plant.

Pryd gall teuluoedd fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant?

Bydd plentyn yn gallu manteisio ar y Cynnig o'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn dair oed tan y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair oed pan gynigir lle addysg amser llawn – sy'n cyd-fynd â darpariaeth Feithrin Cyfnod Sylfaen (FPN).

Dylai rhieni cymwys fod yn gallu manteisio ar y Cynnig o ba bynnag pwynt maent yn dymuno yn ystod y tymor hwnnw, cyhyd â bod eu plentyn yn gymwys o ddechrau'r tymor hwnnw, neu'n gynharach. Mae hyn yn cynnwys rhieni sy'n cael eu cyflogi.

Bydd pob rhiant a asesir yn gymwys i dderbyn y gofal plant a ariennir yn cael llythyr cadarnhau. Bydd y gofal plant a ariennir yn dechrau ar ôl i rieni dderbyn y llythyr hwn, yn amodol ar gytundeb gyda'r darparwr gofal plant.

Pwy all fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant?

Er mwyn cael manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig mae'n rhaid i rieni a gwarcheidwaid:

- Fod yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig ac yn breswylwyr sefydlog yng Nghymru. **Mae'n rhaid i'r ddau riant fod yn gweithio mewn teulu dau riant**, neu'r unig riant mewn teulu un rhiant;
- Yn ennill isafswm wythnosol o 16 awr ar yr isafswm cyflog cenedlaethol (ICC) neu'r cyflog byw cenedlaethol (CBC). Ewch i www.gov.uk/national-minimum-wage-rates for current rates i weld y cyfraddau cyfredol
- Rhieni sy'n ennill cyfwerth â 16 awr yr wythnos (ICC/CBC), ond llai na £100 mil y flwyddyn

Bydd angen i rieni brofi eu bod yn gweithio am isafswm o 16 awr yr wythnos trwy eu henillion.

Os bydd rhieni wedi gwahanu ond nid ydynt yn rhannu cyfrifoldeb cyfartal am warchod y plentyn, bydd y rhiant sydd â'r prif gyfrifoldeb gwarchod yn gymwys i ymgymryd â'r Cynnig (os bydd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd)

Os bydd rhieni'n rhannu cyfrifoldeb gwarchod cyfartal, bydd angen i un rhiant gael ei enwebu fel y rhiant arweiniol ar gyfer y Cynnig.

Bydd angen i rieni, gwarcheidwaid, llys-rieni a phartneriaid sy'n cydfyw fodloni'r meini prawf cymhwyster er mwyn i blentyn sy'n byw ar yr aelwyd honno allu ymgymryd â'r Cynnig.

Beth fydd yn digwydd os byddai i neu fy mhartner yn colli ein swydd?

Os bydd rhiant yn peidio â bod yn gymwys, rhoddir cyfnod eithrio o 8 wythnos a byddant yn gallu parhau i fanteisio ar y Cynnig yn ystod y cyfnod hwn.

Eithriadau i Gymhwysedd

Mae rhai amgylchiadau pan fydd rhieni yn gallu manteisio ar y Cynnig pan na fyddant yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, sef:

- pan fydd un neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar gyflog salwch statudol neu'n derbyn cyflog mamolaeth/tadolaeth statudol/ ar absenoldeb rhieni;
- pan fydd un rhiant yn gyflogedig ac un rhiant yn anabl neu wedi'i analluogi yn seiliedig ar dderbyn budd-daliadau neu mae ganddo gyfrifoldebau gofal sylweddol yn seiliedig ar fudd-daliadau penodol a dderbynnir am ofalu;
- Gofalwyr sy'n perthyn, teulu a ffrindiau sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am blentyn neu lys-blentyn nad yw'n blentyn iddyn nhw oherwydd:
 - Nid oes gan y plentyn unrhyw rhieni neu mae ganddo rieni na allant ofalu am y plentyn;
 - Mae'n debyg y byddai'r plentyn fel arall yn derbyn gofal gan awdurdod lleol oherwydd pryderon o ran lles y plentyn.

Beth sydd ar gael i blant ag anghenion ychwanegol mewn darpariaeth gofal plant?

Mae Grant Cymorth Ychwanegol sydd ar gael i sicrhau bod yr elfen gofal plant o'r Cynnig yn cynnwys plant cymwys ag anghenion ychwanegol. Gall gael ei ddefnyddio at nifer o ddibenion gan gynnwys hyfforddiant i ddarparwyr gofal plant, staffio gofal plant ychwanegol, offer arbenigol, ac addasiadau ffisegol i ddarpariaeth gofal plant. Gallwch nodi bod gan eich plentyn anghenion ychwanegol wrth wneud cais am y Cynnig.

Sut gallaf ddefnyddio'r oriau o ofal plant?

A oes terfyn ar nifer y darparwyr gofal plant lle gellir derbyn y Cynnig ar unrhyw ddiwrnod penodol?

Bydd y Cynnig yn galluogi plant i fanteisio ar uchafswm o ddau ddarparwr gofal plant yn ogystal a'u lleoliad FPN ar unrhyw ddiwrnod penodol.

Felly, yn ystod y cyfnod gwyliau, caiff plentyn fanteisio ar uchafswm o ddau ddarparwr gofal plant cofrestredig o dan y Cynnig.

A oes cyfyngiadau i'r diwrnodau, amserau'r dydd a nifer yr oriau y gellir manteisio ar y Cynnig?

Gall rhieni cymwys fanteisio ar elfen gofal plant y Cynnig ar unrhyw bwynt a dymunant, felly cyfrifoldeb y rhiant yw dod o hyd i ddarparwyr gofal a all fodloni eu gofynion.

A all rhieni gronni eu horiau?

Na allant, ni roddir system gronni ar waith. Rhoddir cyfanswm o 30 awr yr wythnos o ddarpariaeth FPN a gofal plant i rieni, ac mae rhieni'n dewis faint o'r 30 awr i ymgymryd â nhw. Collir unrhyw oriau nas defnyddir mewn wythnos.

Beth mae darparwyr gofal plant yn ei dderbyn?

Beth yw cyfradd cyflog ar gyfer darparwyr gofal plant o dan y Cynnig?

Bydd pob darparwr gofal plant yn derbyn cyfradd o £4.50 yr awr ar gyfer plant sy'n derbyn y Cynnig. Nid yw'r gyfradd hon yn cynnwys bwyd. Felly gall darparwyr godi ffioedd ychwanegol ar rieni ar gyfer bwyd. Fodd bynnag, ni all hyn fod yn fwy na £7.50 y dydd.

Canllawiau Llywodraeth Cymru o ran gosod ffioedd ychwanegol o dan y Cynnig a gyfer sesiwn gofal dydd llawn (tua 10 awr) yw na ddylid codi mwy na £7.50 y dydd ar rieni (byddai hyn yn cynnwys tri phryd o fwyd am £2 y pryd a 2 fyrbryd am dâl o 75c yr un). Am sesiwn hanner diwrnod (tua 5.5 awr) ni ddylid codi mwy na £4.75 (dau bryd o fwyd am £2 y pryd a byrbryd am dâl o 75c yr un). Am ofal sesiynol pan na chaiff pryd o fwyd ei ddarparu ond mae plant yn derbyn byrbryd, y canllawiau yw na ddylid codi mwy na 75c y dydd am ddarparu byrbryd.

Hefyd gall darparwyr godi am weithgareddau a thrafnidiaeth megis teithiau i ffwrdd o'r safle am ffi ychwanegol neu gasglu/gollwng.

Ni all darparwyr godi cyfraddau adlenwi fesul awr pe baent fel arfer yn codi mwy na £4.50 yr awr.

Os yw darparwyr fel arfer yn codi ar rieni yn ôl sesiwn, gall y gyfradd sesiwn hon gael ei hariannu drwy'r Cynnig Gofal Plant. Fodd bynnag, os yw'r cyfraddau sesiwn yn fwy na nifer yr oriau a ariennir drwy Gynnig Gofal Plant, gallai rhieni orfod talu'r gwahaniaeth yn uniongyrchol i'r darparwr gofal plant.

Sylwer ei bod yn bosibl y bydd blaendaliadau/taliadau cadw yn berthnasol o hyd a dylech chi siarad â'ch darparwr gofal plant am hyn cyn ymrwymo i gontract gydag ef/hi.

Sawl wythnos y flwyddyn mae'r Cynnig Gofal Plant yn berthnasol ar eu cyfer?

Sut bydd y Cynnig yn gweithio y tu allan i amser y tymor?

Bydd y Cynnig Gofal Plant yn berthnasol am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen ar gael am 39 wythnos bob blwyddyn. Felly yn ystod gwyliau'r ysgol, mae'r cyllid yn cynyddu i 30 awr yr wythnos ar gyfer tair wythnos fesul tymor: cyfanswm o 9 wythnos y flwyddyn academiaidd.

Tymor yr Ysgol		Gofal Plant a Ariennir yn ystod gwyliau'r ysgol
Gwanwyn	Ionawr – Mawrth/ Ebrill (gan ddibynnu ar ddyddiad y Pasg)	30 awr x 3 wythnos
Haf	Ebrill - Gorffennaf	30 awr x 3 wythnos
Hydref	Medi - Rhagfyr	30 awr x 3 wythnos

Ar gyfer dyddiadau tymor cyfredol gweler www.valeofglamorgan.gov.uk/ysgolion

Caiff rhieni dewis cronni eu hwythnosau gwyliau a'u cario drosodd i ddyraniad gwyliau y tymor nesaf. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y rhiant yw dod o hyd i ddarparwr sy'n cynnig y ddarpariaeth sydd fwyaf addas i'w anghenion. Bydd angen i rieni gael mynediad i'w darpariaeth mewn blociau hyd wythnos. Ni ellir cronni oriau gofal plant ar draws wythnosau.

Bydd rhieni yn talu am unrhyw ofal plant ychwanegol y mae ei angen sy'n fwy na'r Cynnig Gofal Plant i'r darparwr gofal plant.

Â phwy dylwn i gysylltu i gael mwy o wybodaeth?

Dylech chi gysylltu â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro i gael mwy o fanylion.

Gall GGiD y Fro hefyd roi gwybodaeth ac arweiniad ar ba opsiynau gofal plant sydd ar gael i chi. Gallai hyn gynnwys gwarchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, grwpiau chwarae, Cylchoedd Meithrin, clybiau brecwast ac ar ôl ysgol, a pha un a ydynt yn cynnig gofal cofleidiol os yw'ch plentyn hefyd yn mynychu darpariaeth feithrin yn yr ysgol. Mae ganddynt hefyd fanylion cynlluniau gofal gwyliau a ph'un a yw darparwyr gofal plant wedi'u cofrestru â'r Cynnig.

Os oes gan eich plentyn anghenion ychwanegol gall chwilio am ddarparwyr gofal plant sydd â phrofiad o ofalu am blant ag anghenion ychwanegol. Gall hefyd roi gwybod i chi am Y Mynegai, lle gallwch gael gwybodaeth am wasanaethau, grwpiau a chymorth lleol.

Bydd GGiD y Fro yn sicrhau eich bod yn gwybod am unrhyw arian arall i helpu gyda chostau gofal plant fel Cynllun Gofal Plant Di-dreth y Llywodraeth.

Ffoniwch: 01446 704704
E-bost: fis@valeofglamorgan.gov.uk
Facebook: facebook.com/VOGFIS
Twitter: @VALEFIS
Gwefan: www.valeofglamorgan.gov.uk/ggd

Os ydych chi'n byw mewn sir gyfagos, cysylltwch â nhw'n uniongyrchol:

- **Cynnig gofal plant yng Nghaerdydd**
029 2035 1713
cardiffchildcareoffer@cardiff.gov.uk
- **Cynnig Gofal Plant Pen-y-bont ar Ogwr**
01656 642649
Childcareoffer@bridgend.gov.uk
- **Cynnig Gofal Plant Rhondda Cynon Taf**
01443 570048
RCTChildcareOfferforWales@rctcbc.gov.uk

